Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24

Llais ac eiriolwr annibynnol
ar gyfer pobl hŷn

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n gwarchod ac yn hybu hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion i wella eu bywydau. Mae'n darparu help a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy ei thîm gwaith achosion ac mae'n gweithio i rymuso pobl hŷn i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ac y gweithredir yn ei gylch. Mae rôl y Comisiynydd yn seiliedig ar gyfres o bwerau cyfreithiol unigryw i'w chefnogi gydag adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dal yn atebol pan fo angen.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i roi terfyn ar wahaniaethu a rhagfarn ar sail oedran, i atal cam-drin pobl hŷn ac i alluogi i bawb heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd eisiau i Gymru fod y lle gorau yn y byd i bobl heneiddio ynddo.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640670
E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com
Gwefan: www.olderpeoplewales.com
Trydar: @comisiwnphcymru

Fformatau Hygyrch

Os hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Mae pob un o'n cyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu mewn nifer o fformatau gwahanol oddi ar ein gwefan.

Cynnwys

Rhagair 04

1. Ynghylch Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 05

2. Golwg gyffredinol ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru 09

3. Cyd-destun 10

4. Sut y gwnaethom ddatblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb 12

5. Amcanion Cydraddoldeb 13

Amcan 1: Hyrwyddo amrywiaeth o fewn gweithlu'r Comisiynydd a sicrhau cyfleoedd cyfartal i'm holl weithwyr 13

Amcan 2: Sicrhau bod cydraddoldeb yn llywio prosesau mewnol, gan gynnwys wrth wneud penderfyniadau strategol 13

Amcan 3: Sicrhau bod amrywiaeth pobl hŷn yn cael ei adlewyrchu trwy waith y Comisiynydd drwyddo draw er mwyn gwneud Cymru y lle gorau yn y byd i heneiddio ynddo 14

Amcan 4: Rhoi cymorth a chefnogaeth i amrywiaeth eang o bobl hŷn i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu hamddiffyn ac nad oes neb yn gwahaniaethu yn eu herbyn 14

Amcan 5: Sicrhau bod gwaith y Comisiynydd yn seiliedig ar brofiadau amrywiaeth eang o bobl hŷn a'i fod yn berthnasol i bawb 15

6. Monitro, Gwerthuso ac Adolygu 16

7. Cyhoeddi ac Adrodd 16

Atodiad 1: Data proffil y gweithlu 17

Atodiad 2: Cynllun Gweithredu 19

Cyfeirnodau 22

Rhagair

Mae pandemig Covid-19 wedi amlygu pam fod gwarchod hawliau pobl hŷn yn hanfodol, a pha mor hawdd y gall hawliau pobl gael eu herydu. Mae'r pandemig wedi rhoi ffocws cryf ar yr anghydraddoldebau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu bob dydd, yn enwedig pobl o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig (BAME), ac mae'r misoedd diwethaf wedi dangos fod oedraniaeth yn parhau yn gyffredin ledled cymdeithas heddiw, er gwaethaf y ffaith ei bod yn anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail eu hoedran.

Nid yw hyn yn dderbyniol ac nid ddylai fynd heb ei herio.

Ni ddylai hawliau leihau wrth i bobl fynd yn hŷn. Fodd bynnag, mae llawer o bobl hŷn yn darganfod nad yw eu hawliau yn cael eu cynnal wrth iddynt heneiddio. Mae hawliau hefyd yn cael eu hystyried yn anghyffwrdd, yn anghyraeddadwy ac yn amherthnasol.

Mae sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu cynnal ac na wahaniaethir yn erbyn pobl hŷn yn ganolog i fy rôl fel Comisiynydd. Fel y llais annibynnol a lladmerydd dros bobl hŷn ar draws Cymru, rwy'n gweithio i hyrwyddo cydraddoldeb ym mhob agwedd ar fywyd pobl hŷn. Mae gennyf rôl unigryw i'w chwarae o ran mynd i'r afael ag oedraniaeth a gwahaniaethu yn eu holl ffurfiau, a sicrhau bod eraill yn gweithio i fynd i'r afael â'r materion hyn ochr yn ochr â mi.

Mae rhan hollbwysig gan gyrff cyhoeddus hefyd wrth ddefnyddio hawliau'n rhagweithiol i sicrhau tegwch, urddas, parch ac annibyniaeth, i yrru gwelliannau ystyrlon a chyflawni newid o ran diwylliant. Bydd pobl hŷn hefyd yn hanfodol o ran gyrru newid drwy'r profiadau y maent yn eu rhannu.

O ganlyniad, mae'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol a amlinellir yn y cynllun hwn yn canolbwyntio ar weithio gyda phobl hŷn a chyrff cyhoeddus er mwyn gwreiddio hawliau ym mhob rhan o ddarpariaeth gwasanaeth. Byddaf hefyd yn ceisio sicrwydd o gydymffurfio gyda deddfwriaeth allweddol, fel Deddf Cydraddoldeb 2010, a byddaf yn gweithio i sicrhau fod hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu hyrwyddo bob amser.

Cymru sy'n rhydd o wahaniaethu, lle y mae hawliau pobl hŷn yn cael eu gwarchod fydd y gonglfaen fydd yn gwneud Cymru y lle gorau yn y byd i heneiddio.

Heléna Herklots, CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Hydref 2020

1. Ynghylch Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n gwarchod ac yn hybu hawliau pobl 60 oed a hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion i wella eu bywydau.

Mae'n darparu help a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy ei thîm gwaith achosion ac mae'n gweithio i rymuso pobl hŷn i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ac y gweithredir yn ei gylch.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn:

- Hybu ymwybyddiaeth o hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru
- Herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru.
- Annog arferion gorau yn y ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu trin yng Nghymru
- Adolygu'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Mae rôl y Comisiynydd yn seiliedig ar gyfres o bwerau cyfreithiol unigryw i'w chefnogi gydag adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dal yn atebol pan fo angen.

Mae'r Comisiynydd eisiau i Gymru fod y lle gorau yn y byd i bobl heneiddio ynddo.

1.1 Rôl a chylch gorchwyl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae'r Comisiynydd yn Gorfforaeth Undyn a grëwyd o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, yn endid cyfreithiol annibynnol ei hun ac yn awdurdod rhestredig at ddiben Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Mae Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 yn nodi nifer o ddyletswyddau statudol ar gyfer y Comisiynydd.

1. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru a'r angen i ddiogelu'r buddiannau hynny

Mae'r Comisiynydd yn manteisio ar ei statws i helpu i osod yr agenda ymhlith y rheini sy'n gwneud penderfyniadau ar bob lefel ynghylch materion sy'n effeithio ar bobl hŷn, ac yn hybu trafodaeth gyhoeddus drwy'r cyfryngau.

Un o brif rolau'r Comisiynydd yw bod yn hyrwyddwr pwerus dros bobl hŷn gan ymyrryd neu chwarae rôl arweiniol mewn ystod eang a chynyddol o drafodaethau a phrosesau gwneud penderfyniadau ledled Cymru.

2. Hyrwyddo'r gwaith o ddarparu cyfleoedd i bobl hŷn yng Nghymru a dileu gwahaniaethu yn eu herbyn

Mae'r Comisiynydd yn argymell newidiadau i'r gyfraith, i ganllawiau ac i arferion er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Mae'n cyflwyno delweddau realistig a chadarnhaol o bobl hŷn, gan gydnabod pobl hŷn o bob math.

Mae pobl hŷn yn unigolion, ac er bod rhai pryderon yn berthnasol iddynt oll, mae eu statws fel unigolion yn dal i fod yn gryf. Ni ddylid mabwysiadau un agwedd gyffredinol at bobl hŷn, ac mae'r Comisiynydd yn ceisio adlewyrchu hyn yn ei gwaith.

Mae'r Comisiynydd yn hybu dealltwriaeth o natur gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yn ei agweddau amlwg a'i agweddau cudd, sydd yr un mor niweidiol. Yn ei barn hi, mae mynd i'r afael â gwahaniaethu yn allweddol ar gyfer gwneud cynnydd ar draws bob maes polisi ac nid iechyd a gofal cymdeithasol yn unig.

3. Annog ymarfer da yn y ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu trin yng Nghymru

Bwriad y Comisiynydd yw cyflawni hyn drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys dod â phobl a thystiolaeth at ei gilydd a, pan fo angen, cyflawni gwaith ymchwil i gyflwyno esiampl o ymarfer effeithiol.

Yn bwysicach fyth, mae hi'n mynnu y dylai gwasanaethau o safon uchel fod ar gael yn eang ac yn gyson i bobl hŷn. Mae hi'n hybu newidiadau i ymarfer sefydledig pan fydd y dystiolaeth yn dangos bod ymarfer gwahanol yn gweithio'n well. Mae hi'n annog darparwyr gwasanaeth i wynebu heriau newid er mwyn i anghenion pobl hŷn gael eu diwallu'n well, e.e. rhoi cefnogaeth gynnar i bobl hŷn er mwyn atal dibyniaeth uwch rywbryd eto.

4. Cadw golwg ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd y ddeddf sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Mae'r Comisiynydd yn llunio'r achos dros newid ac yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'r Senedd Cymru. Mae'n sefydlu beth yw'r problemau a'r cyfleoedd o ran cyfuno arbenigedd cyfreithiol, arbenigedd arall a phrofiad a safbwyntiau pobl hŷn.

1.2 Gweledigaeth a Gwerthoedd Mewnol

Mae'r Comisiynydd am i Gymru fod y lle gorau yn y byd i heneiddio.

Mae hyn yn golygu dathlu'r ffaith ein bod yn gymdeithas sy'n heneiddio a sicrhau ein bod yn gallu mwynhau'r cyfleoedd a ddaw yn ei sgil. Mae'n golygu bod wedi arfogi i gwrdd â'r heriau y gallem eu hwynebu wrth i ni heneiddio a sicrhau bod pobl hŷn, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn gallu cael gafael ar y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'n golygu croesawu a hyrwyddo arloesedd ac arfer da i ysbrydoli gweithredu, gan ddal pobl yn atebol pan fo angen, ac mae'n golygu grymuso pobl hŷn drwy sicrhau eu bod yn deall eu hawliau cyfreithiol a sut y gallant eu harfer i leisio'u barn a herio arfer gwael.

Ein gwerthoedd

Yn ystod 2019-20, fe gydweithiodd y Comisiynydd â staff ar ddyluniad ein gwerthoedd a'n hymddygiadau sefydliadol. Mae'r gwerthoedd hyn yn arwain diwylliant y sefydliad ac yn sail i'n hamcanion perfformiad personol.

Ein gwerthoedd	Sut yr ydym yn eu harddangos
Un tîm	Nodau ar y cyd yn lle agendâu unigol Rhagweithiol o ran cynnig cymorth i eraill
Parchus	Mynd ati'n frwd i geisio barn eraill Dangos ein bod yn gwerthfawrogi gwahanol farn a phersbectif
Cynhwysol a chyfeillgar	Rhoi sylw i lesiant y naill a'r llall Bod yn garedig, croesawgar a chefnogol i bawb Ystyried effaith yr hyn yr ydym yn ei ddweud a'i wneud ar eraill
Agored	Herio'n adeiladol a bod yn agored i gael ein herio Ceisio dysgu oddi wrth eraill Chwilio am ffyrdd gwell o wneud pethau bob amser
Uchelgeisiol	Dangos angerdd dros ein gweledigaeth Ymdrechu am ragoriaeth Bod yn feiddgar ac yn barod i gymryd risgiau a ystyriwyd er mwyn cael effaith
Gonestrwydd	Ymdrechu i wneud y pethau iawn a chymryd cyfrifoldeb dros ein gwaith Gwneud yr hyn a ddywedwn

1.3 Strategaeth y Comisiynydd 2019-22

Ers iddi gael ei phenodi ym mis Awst 2018, bu'r Comisiynydd a'i thîm yn ymgymryd â rhaglen helaeth o ymgysylltu â phobol hŷn ledled Cymru – gan ymweld ag 82 o grwpiau ac ymgysylltu â thros 3,000 o bobl – i glywed am eu profiadau o heneiddio, yn gadarnhaol a negyddol, a'r newidiadau yr hoffent eu gweld a fyddai'n gwneud Cymru y lle gorau yn y byd i heneiddio.

Ochr yn ochr â hyn, bu'r Comisiynydd a'i thîm hefyd yn ymgysylltu ac yn ymgynghori ag ystod o sefydliadau a rhanddeiliaid eraill, yn ogystal ag adolygu a chanfod bylchau o fewn tystiolaeth a pholisi cyfredol, gan wneud defnydd o flynyddoedd o wybodaeth, profiad ac ymchwil.

Yr oedd yr ymgysylltu â'r ymgynghori hwn yn cefnogi datblygiad strategaeth tair blynedd y Comisiynydd – Gwneud Cymru y Lle Gorau yn y Byd i heneiddio – sy'n canolbwyntio ar dair blaenoriaeth allweddol:

- Rhoi terfyn ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed
- Rhoi terfyn ar gam-drin pobl hŷn
- Galluogi pawb i heneiddio'n dda

Ochr yn ochr â chyflawni ystod eang o waith yn erbyn y blaenoriaethau hyn, mae'r Comisiynydd hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i ddylanwadu ar bolisïau ac ymarfer ar draws y blaenoriaethau hyn, ar lefel genedlaethol a lleol, ynghyd â chraffu ar gyrff cyhoeddus a'u dal yn atebol pan fo angen..

[Gallwch ddarllen Strategaeth y Comisiynydd yma](#).



2. Golwg gyffredinol ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi disodli'r deddfau blaenorol ar atal gwahaniaethu ac wedi'u cyfuno mewn un Ddeddf. Y nod oedd symleiddio'r gyfraith a'i chryfhau, gan ddileu anghysondebau a'i gwneud yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb i'r sector cyhoeddus, sy'n disodli'r dyletswyddau ar wahân ynglŷn â hil, anabledd a rhywedd a oedd yn bodoli o'r blaen.

Nod y ddyletswydd cydraddoldeb yw sicrhau bod yr awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant wneud cyfraniad cadarnhaol er mwyn sicrhau cymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau beunyddiol. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori wrth i bolisïau gael eu llunio ac wrth i wasanaethau gael eu cyflawni, a bod y rhain yn cael eu hadolygu'n gyson. Dylai hyn sicrhau gwell canlyniadau i bawb.

Dyma 3 nod y ddyletswydd cydraddoldeb:

1. Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd dan y Ddeddf Cydraddoldeb;

2. Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu;

3. Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol newydd yn ymdrin â'r nodweddion gwarchodedig a ganlyn:

- Oedran
- Rhyw
- Hil – gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Mae'n berthnasol i briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond o ran y gofyniad bod rhaid rhoi sylw priodol i'r angen i ddileu gwahaniaethu)

3. Cyd-destun

Pobl Hŷn yng Nghymru: Ffeithiau a Ffigurau Allweddol

Amcangyfrif Poblogaeth Cymru 60+ 2019 a Rhagamcanion y Boblogaeth 60+ ar gyfer 2030 a 2040

	2019	2030	2040
Amcangyfrif Poblogaeth 60+	855,229	1,004,000	1,036,000
Pobl Hŷn (60+) fel % o Gyfanswm y Boblogaeth	27%	31%	32%

Amcangyfrif y nifer o Bobl Hŷn yng Nghymru o wahanol ethnigrwydd 2018-19

Gwyn Prydeinig	833,763
Ethnigrwydd Gwyn Arall [Gwyddelig, Sipsiwn/Teithwyr, Pwylaidd, Gwyn Arall]	9,845
Heb fod yn Wyn [Indiaidd, Pacistanaidd, Bangladeshaidd, Tseineaidd, Asiaidd Arall, Du Caribïaidd, Du Affricanaidd, Du Arall, Arabaidd, Pob Grŵp Ethnig Arall]	11,620







Amcangyfrifir bod **140,978** o bobl hŷn (**17%**) yn siarad Cymraeg

95,330 (**11%**) o bobl hŷn yn ystyried eu bod yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg

618,919 (**72%**) o bobl hŷn ddim yn siarad Cymraeg

Amcangyfrifir bod 32,818 o bobl hŷn dros 60 mlwydd oed â golwg gwael. Amcangyfrifir bod 297,955 o bobl hŷn yn cael trafferth gyda'u clyw.

Yn 2018-19, roedd 16144 o bobl 65 oed a throsodd yn byw mewn cartref gofal (10610 mewn cartref heb ddarpariaeth nyrsio; 5534 mewn cartref gyda darpariaeth nyrsio). Mae hyn yn cynrychioli 2.4% o bobl dros 65.







Yn 2018-19, roedd 16144 o bobl 65 oed a throsodd yn byw mewn cartref gofal (10610 mewn cartref heb ddarpariaeth nyrsio; 5534 mewn cartref gyda darpariaeth nyrsio). Mae hyn yn cynrychioli 2.4% o bobl dros 65

[Am gyfeiriadau, gweler tudalen 21]

4. Sut y gwnaethom ddatblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb

Mae Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd ar gyfer 2020-24 yn adeiladu ar y gwaith a wnaed gan y cyn Gomisiynwyr a'u hymrwymiad i hyrwyddo hawliau grŵp cynyddol amrywiol o bobl hŷn.

I sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei wreiddio drwy ei holl weithgaredd, mae Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd ar gyfer 2020-24 yn adlewyrchu gweledigaeth a gwerthoedd y sefydliad, ac y maent hefyd yn cyd-fynd yn agos â'i Strategaeth.

Chwaraeodd ymgysylltu â phobl hŷn yng Nghymru rôl allweddol o ran siapio Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd. Ochr yn ochr ag ymgynghoriad cyhoeddus, bu tîm y Comisiynydd yn ymweld a nifer o grwpiau pobl hŷn i sôn am Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd a gwrando ar y materion cydraddoldeb a oedd bwysicaf iddyn nhw. Canolbwyntiodd yr ymgysylltu ar grwpiau a oedd yn dwyn ynghyd bobl hŷn gyda nodweddion gwarchodedig penodol i sicrhau bod amrywiaeth profiadau bywyd pobl hŷn yn cael eu casglu.

Mae'r Comisiynydd yn ddiolchgar i'r bobl hŷn a'r rhanddeiliaid a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad ar ei Hamcanion Cydraddoldeb.

Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd y Comisiynydd ei hadroddiad 'Cyflwr y Genedl', a roddodd drosolwg cynhwysfawr ar y profiad o heneiddio yng Nghymru a'r meysydd allweddol sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn. Mae'r adroddiad yn defnyddio ymchwil o ystod o ffynonellau a thynnodd sylw am unrhyw fylchau yn y data am bobl hŷn. Defnyddiwyd y dystiolaeth hon hefyd i oleuo datblygiad Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd, ynghyd â data o adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'A yw Cymru'n Decach? 2018'.

5. Amcanion Cydraddoldeb

Mae Amcanion Cydraddoldeb Strategol drafft y Comisiynydd ar gyfer 2020-24 yn adeiladu ar y camau sydd eisoes wedi cael eu cymryd i wneud cydraddoldeb yn rhan annatod o'i gwaith drwyddo draw, fel cyflogwr ac fel hyrwyddwr pobl hŷn yng Nghymru. Mae ei Hamcanion Cydraddoldeb Strategol drafft â chysylltiad agos â'r Cynllun Strategol a gyhoeddwyd ganddi – Gwneud Cymru y Lle Gorau yn y Byd I Heneiddio Ynddo 2019-22.

Mae rôl a phwerau statudol y Comisiynydd wedi'u diffinio gan **Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006** a'r **Rheoliadau**, cysylltiedig, sy'n golygu bod yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol yn canolbwyntio ar hyrwyddo cydraddoldeb i bobl 60 oed a hŷn yng Nghymru.

Amcan 1: Hyrwyddo amrywiaeth o fewn gweithlu'r Comisiynydd a sicrhau cyfleoedd cyfartal i'm holl weithwyr

Camau Gweithredu:

- Cadw golwg ar ba mor effeithiol yw ei phrosesau recriwtio er mwyn annog amrywiaeth eang o ymgeiswyr.
- Cofnodi data cynhwysfawr ac ystyrlon am gydraddoldeb cyflogaeth.
- Hyrwyddo dealltwriaeth drylwyr o faterion amrywiaeth a chydraddoldeb ymysg fy ngweithlu drwyddo draw, gyda hyfforddiant arbenigol ar gyfer rolau penodol.
- Parhau i fonitro gwahaniaethau rhwng y rhywiau o ran cyflogau o fewn gweithlu'r Comisiynydd.

Amcan 2: Sicrhau bod cydraddoldeb yn llywio prosesau mewnol, gan gynnwys wrth wneud penderfyniadau strategol

Camau Gweithredu:

- Gwerthuso ei harferion caffael i sicrhau eu bod yn hyrwyddo cydraddoldeb a sicrhau ei bod yn parhau i fodloni gofynion cydraddoldeb cyfreithiol ar yr un pryd.
- Adolygu a chryfhau rôl ei phroses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb fel sail ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- Gwerthuso pa mor effeithiol yw ei phrosesau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb.

Amcan 3: Sicrhau bod amrywiaeth pobl hŷn yn cael ei adlewyrchu trwy waith y Comisiynydd drwyddo draw er mwyn gwneud Cymru y lle gorau yn y byd i heneiddio ynddo

Camau Gweithredu:

- Gweithio i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn lleihau'r anghydraddoldebau y mae pobl hŷn yn cael profiad ohonynt
- Gweithio i sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu grymuso i wybod beth yw eu hawliau a'u bod yn gallu herio gwahaniaethu yn ei holl ffurfiau.
- Gweithio i sicrhau bod pobl yn deall yr effaith y mae oedraniaeth yn ei chael ar bobl hŷn ac ar gymdeithas.
- Gweithio i sicrhau bod cymunedau yn diwallu anghenion amrywiaeth eang o bobl hŷn.
- Gweithio i sicrhau bod y cymorth y mae pobl sy'n dioddef camdriniaeth yn ei gael yn adlewyrchu anghenion pobl hŷn o bob cefndir.
- Gweithio i sicrhau bod gofal iechyd a chymdeithasol yn diwallu anghenion amrywiaeth eang o bobl hŷn.
- Craffu ar gyrff cyhoeddus a dal y rheini sy'n gyfrifol am achosion o wahaniaethu ar sail oedran yn atebol.
- Gweithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i wneud cynnydd o ran hawliau pobl hŷn ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.
- Gweithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru i hyrwyddo cyd-gefnogaeth rhwng cenedlaethau.

Amcan 4: Rhoi cymorth a chefnogaeth i amrywiaeth eang o bobl hŷn i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu hamddiffyn ac nad oes neb yn gwahaniaethu yn eu herbyn

Camau Gweithredu:

- Cofnodi data cydraddoldeb a geir yn sgil ymholwyr sy'n cysylltu â fy Nhîm Gwaith Achos er mwyn cynyddu amrywiaeth.
- Gwerthuso proffil amrywiaeth pobl hŷn sydd mewn cysylltiad â fy Nhîm Gwaith Achos.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r Tîm Gwaith Achos ymhlith pobl hŷn sydd â nodweddion gwarchodedig.
- Sicrhau y gall pobl hŷn o bob cefndir gael gafael ar fy Nhîm Gwaith Achos.

Amcan 5: Sicrhau bod gwaith y Comisiynydd yn seiliedig ar brofiadau amrywiaeth eang o bobl hŷn a'i fod yn berthnasol i bawb

Camau Gweithredu:

- Ymgysylltu â'r boblogaeth pobl hŷn yn ei holl amrywiaeth er mwyn dysgu a deall, rhoi gwybodaeth a grymuso.
- Archwilio'n rheolaidd a gwell pa mor hawdd yw ei gwefan i'w defnyddio.
- Sicrhau bod pawb yn gallu deall ei chyfathrebiadau a'u bod yn adlewyrchu amrywiaeth y gymuned pobl hŷn.

6. Monitro, Gwerthuso ac Adolygu

Bydd cynnydd yn erbyn Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd ac ar y camau gweithredu a nodwyd yn cael ei fonitro gan y Prif Swyddog Gweithredu a'r Arweinydd Cydraddoldeb a Hawliau yn barhaus. Gellir gweld cynllun gweithredu yn rhoi manylion yr amserlenni yn Atodiad 2.

Bydd diweddariad ddwywaith y flwyddyn ar gynnydd yn erbyn yr Amcanion Cydraddoldeb yn cael eu trafod gan y Tîm Rheoli Busnes a bydd diweddariad blynyddol ar gynnydd hefyd yn cael ei drafod gan Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Comisiynydd.

Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb a chamau gweithredu a nodwyd o fewn y Cynllun hwn yn cael eu hadolygu'n flynyddol, yn unol â phroses gynllunio strategol y Comisiynydd. Bydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yn cael ei gynhyrchu erbyn diwedd Mawrth 2024.

7. Cyhoeddi ac Adrodd

Bydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Comisiynydd ar gyfer 2020-24 yn cael ei gyhoeddi ar ei gwefan, ynghyd â Chynlluniau Cydraddoldeb blaenorol. Bydd y Cynllun yn cael ei hyrwyddo drwy'r sianeli priodol a bydd fersiynau o'r adroddiad mewn gwahanol fformatau ar gael ar gais.

I gydymffurfio â'i dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, bydd y Comisiynydd yn parhau i adrodd yn flynyddol ar y cynnydd a wnaed ers cyhoeddi ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol. Bydd yr holl adroddiadau cydraddoldeb blynyddol yn cael eu cyhoeddi ar y wefan a bydd copïau yn cael eu darparu ar gais.

Atodiad 1: Data proffil y gweithlu

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, bydd y Comisiynydd yn parhau i gasglu data ar broffil ei gweithlu mewn perthynas â'r meysydd a restrir isod.

Adroddir ar y data hwn yn flynyddol a gellir dod o hyd i adroddiadau blaenorol **yma**. Mae tueddiadau o'r data hwn wedi cael eu dadansoddi a'u defnyddio wrth lunio Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd.

Data gofynnol am y gweithlu a gasglwyd gan y Comisiynydd:

Gwybodaeth cyfrif pennau

Rhaid i gorff cofrestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol nifer y bobl a gyflogir gan yr awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn, yn ôl nodweddion gwarchodedig.

- Oedran
- Trawsryweddol
- Rhyw
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Hil – gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol nifer y dynion a'r menywod a gyflogir, wedi'u rhannu yn ôl y categorïau canlynol:

- Swydd
- Cyflog a Graddfa
- Math o Gontract
- Patrwm Gwaith

Recriwtio

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol nifer y bobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r sefydliad dros y flwyddyn ddiwethaf.

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol nifer y gweithwyr sydd wedi gwneud cais am newid swydd o fewn yr awdurdod, gan nodi sawl un a fu'n llwyddiannus yn eu cais a sawl un fu'n aflwyddiannus.

Dysgu a Datblygu

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol nifer y gweithwyr sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a sawl un fu'n llwyddiannus gyda'u cais.

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol nifer y gweithwyr a gwblhaodd yr hyfforddiant.

Gweithdrefnau Cwyno

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol nifer y gweithwyr sy'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno naill ai fel achwynydd neu fel unigolyn y gwnaed cwyn yn ei erbyn.

Gweithdrefnau Disgyblu

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol nifer y gweithwyr sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau disgyblu.

Ymadawyr

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol nifer y gweithwyr sydd wedi gadael cyflogaeth awdurdod.

Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau

Cyhoeddi data ar y gwahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau.

Atodiad 2: Cynllun Gweithredu ar gyfer rhoi Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Comisiynydd ar gyfer 2020-24 ar waith a'i fonitro

Amcan	Cam Gweithredu	Amserlen
Hyrwyddo amrywiaeth o fewn gweithlu'r Comisiynydd a sicrhau cyfleoedd cyfartal i'r holl weithwyr	Cadw golwg ar ba mor effeithiol yw'r broses recriwtio er mwyn annog amrywiaeth eang o ymgeiswyr.	Parhaus, cyn ac ar ôl ymgyrchoedd recriwtio
	Cofnodi data cynhwysfawr ac ystyrlon am gydraddoldeb cyflogaeth.	Ebrill 2021 ac yn flynyddol ar ôl hynny
	Hyrwyddo dealltwriaeth drylwyr o faterion amrywiaeth a chydraddoldeb ymysg y gweithlu drwyddo draw, gyda hyfforddiant arbenigol ar gyfer rolau penodol.	Ebrill 2021 ac yn flynyddol ar ôl hynny
	Parhau i fonitro gwahaniaethau rhwng y rhywiau o ran cyflogau o fewn gweithlu'r Comisiynydd.	Ebrill 2021 ac yn flynyddol ar ôl hynny
Sicrhau bod cydraddoldeb yn llywio prosesau mewnol gan gynnwys wrth wneud penderfyniadau strategol	Gwerthuso arferion caffael i sicrhau eu bod yn hyrwyddo cydraddoldeb a sicrhau eu bod yn parhau i fodloni gofynion cydraddoldeb cyfreithiol ar yr un pryd.	Hydref 2021
	Adolygu a chryfhau rôl y broses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) fel sail ar gyfer gwneud penderfyniadau.	Ebrill 2021
	Gwerthuso pa mor effeithiol yw'r prosesau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb. .	Hydref 2021

Sicrhau bod amrywiaeth pobl hŷn yn cael ei adlewyrchu drwy waith y Comisiynydd drwyddo draw er mwyn gwneud Cymru y lle gorau yn y byd i heneiddio	Gweithio i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn lleihau anghydraddoldebau y mae pobl hŷn yn cael profiad ohonynt.	Parhaus
	Gweithio i sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu grymuso i wybod beth yw eu hawliau a'u bod yn gallu herio gwahaniaethu yn ei holl ffurfiau.	Parhaus
	Gweithio i sicrhau bod pobl yn deall yr effaith y mae oedraniaeth yn ei chael ar bobl hŷn ac ar gymdeithas.	Parhaus
	Gweithio i sicrhau bod cymunedau'n diwallu anghenion amrywiaeth eang o bobl hŷn.	Parhaus
	Gweithio i sicrhau bod y cymorth y mae pobl sy'n dioddef camdriniaeth yn ei gael yn adlewyrchu anghenion pobl hŷn o bob cefndir.	Parhaus
	Gweithio i sicrhau bod gofal iechyd a chymdeithasol yn diwallu anghenion amrywiaeth eang o bobl hŷn.	Parhaus
	Craffu ar gyrff cyhoeddus a dal y rheini sy'n gyfrifol am achosion o wahaniaethu ar sail oedran yn atebol.	Parhaus
	Gweithio gyda sefydliadau partner i wneud cynnydd o ran hawliau pobl hŷn ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.	Parhaus
Rhoi cymorth a chefnogaeth i amrywiaeth eang o bobl hŷn i sicrhau bod eu hawliau'n cael eu hamddiffyn ac nad oes neb yn gwahaniaethu yn eu herbyn	Cofnodi data cydraddoldeb a geir yn sgil ymholwyr sy'n cysylltu â'r Tîm Gwaith Achos er mwyn cynyddu amrywiaeth.	Hydref 2021
	Gwerthuso proffil amrywiaeth pobl hŷn sydd mewn cysylltiad â'r Tîm Gwaith Achos.	Mawrth 2022
	Cynyddu ymwybyddiaeth o'r Tîm Gwaith Achos ymhlith pobl hŷn sydd â nodweddion gwarchodedig.	Ebrill 2022
	Sicrhau y gall pobl hŷn o bob cefndir gael gafael ar y Tîm Gwaith Achos.	Rhagfyr 2021

Sicrhau bod gwaith y Comisiynydd yn seiliedig ar brofiadau amrywiaeth eang o bobl hyn a'i fod yn berthnasol i bawb	Ymgysylltu â'r boblogaeth hŷn yn ei holl amrywiaeth er mwyn dysgu a deall, rhoi gwybodaeth a grymuso.	Parhaus
	Archwilio'n rheolaidd pa mor hawdd yw'r wefan i'w defnyddio.	Medi 2021
	Sicrhau bod pawb yn gallu deall cyfathrebiadau a'u bod yn adlewyrchu amrywiaeth y gymuned pobl hŷn.	Gorffenaf 2021

Cyfeirnodau

Poblogaeth 60+

ONS, (2020) Amcangyfrifon o'r Boblogaeth ar gyfer y DU, Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon: canol-2019. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/annualmidyearpopulationestimates/mid2019estimates [Dyddiad Cyrchu: 16 Medi 2020]

ONS, (2019) Prif ragamcan – Poblogaeth Cymru mewn grwpiau oedran. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationprojections/datasets/tablea25principalprojectionwalespopulationinagegroups [Dyddiad Cyrchu: 16 Medi 2020]

Ethnigrwydd

Llywodraeth Cymru, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2019). Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-2019. [casglu data]. Gwasanaeth Data'r DU. SN: 8591, http://doi.org/10.5255/UKDA-SN-8591-1

Cyfeiriadedd Rhywiol

Llywodraeth Cymru. (2020) Hunaniaeth rhywiol yn ôl oedran. Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Equality-and-Diversity/Sexual-Orientation/sexualidentity-by-age-year-identitystatus. Dyddiad Cyrchu: 16 Medi 2020]

Anabledd

Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2019). Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-2019. [casglu data]. Gwasanaeth Data'r DU. SN: 8591, http://doi.org/10.5255/UKDA-SN-8591-1

Statws Perthynas

Llywodraeth Cymru, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2019). Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-2019. [casglu data]. Gwasanaeth Data'r DU. SN: 8591, http://doi.org/10.5255/UKDA-SN-8591-1

Siaradwyr Cymraeg

Llywodraeth Cymru, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2019). Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-2019. [casglu data]. Gwasanaeth Data'r DU. SN: 8591, http://doi.org/10.5255/UKDA-SN-8591-1

Golwg/Clyw

Llywodraeth Cymru, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2019). Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-2019. [casglu data]. Gwasanaeth Data'r DU. SN: 8591, http://doi.org/10.5255/UKDA-SN-8591-1

Disgwyliad Oes

ONS, (2019) Cyflwr iechyd disgwyliad oes ar enedigaeth ac yn 65 oed yn ôl ardaloedd lleol, y DU. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies/datasets/healthstatelifeexpectancyatbirthandatage65bylocalareasuk [Dyddiad Cyrchu: 16 Medi 2020]

ONS, (2020) Cyflwr iechyd disgwyliad oes yn ôl degraddau amddifadedd cenedlaethol, Cymru: 2016 i 2018. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthinequalities/bulletins/healthstatelifeexpectanciesbynationaldeprivationdecileswales/2016to2018#life-expectancy-and-healthy-life-expectancy-by-the-welsh-index-of-multiple-deprivation [Dyddiad Cyrchu: 16 Medi 2020]

Crefydd

Llywodraeth Cymru, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2019). Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-2019. [casglu data]. Gwasanaeth Data'r DU. SN: 8591, http://doi.org/10.5255/UKDA-SN-8591-1

Cartrefi Gofal

Cyfeirnod Cartrefi Gofal – Llywodraeth Cymru, (2019), Oedolion yn derbyn gwasanaethau yn ôl awdurdod lleol a grŵp oedran, 23 Hydref 2019. Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Adult-Services/Service-Provision/adultsreceivingservices-by-localauthority-agegroup [Dyddiad Cyrchu: 8 Ebrill 2020]

ONS, (2020), Amcangyfrifon o'r Boblogaeth ar gyfer y DU, Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, Mehefin 2020. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland [Dyddiad Cyrchu: 10 Medi 2020]